



## Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

Dydd Llun 15 Chwefror 2021

10.30am

Cyfarfod Rhith

### AGENDA

#### Yn bresennol:-

Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys (**Cadeirydd**)  
Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (**Is-Gadeirydd**)  
Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion (**AE**)  
Ann Watkin, Llywodraeth Cymru (**AW**)  
Arwyn Davies, Cyngor Sir Ceredigion (**AD**)  
Arwyn Watkins OBE, Hyfforddiant Cambrian (**ArW**)  
Catherine Lewis, Grŵp Colegau NPTC (**CL**)  
Ceri Stevens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru (**CD**)  
Claire Miles, Cyngor Sir Ceredigion (**CM**)  
Cynghorydd Gareth Thomas, Cyngor Sir Gwynedd (**Cyng.GT**)  
Cynghorydd Iain McIntosh, Cyngor Sir Powys (**Cyng.IM**)  
Cynghorydd Phyl Davies, Cyngor Sir Powys (**Cyng.PhD**)  
Cynghorydd Rhodri Evans, Cyngor Sir Ceredigion (**Cyng.RE**)  
Dr. Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys (**CT**)  
Dr. Rhian Hayward, Aberinovation (**RH**)  
Dr. Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth (**RLIM**)  
Fiona Stewart, Cyfarwyddwr Rheoli Gŵyl Greenman a Chadeirydd y Grŵp Strategaeth Economaidd (**FG**)  
Gareth Jones, Cyngor Sir Powys (**GJ**)  
Gareth Rowlands, Cyngor Sir Ceredigion (**GR**)  
Gavin Bown, NRW (**GB**)  
Gwilym Jones, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (**GJ**)  
Hywel Davies, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant  
Helen Jones, Croeso Cymru (**HW**)  
Jane Lewis, Cyngor Sir Gâr (**FS**)  
Lowri Gwilym, CLILC (**LG**)  
Marie Evans, Cyngor Sir Ceredigion (**ME**)  
Mark Dacey, Grŵp Colegau NPTC (**MD**)  
Matthew Willis, Bwrdd Iechyd Hywel Dda (**MW**)  
Paul Griffiths, Cynghorydd (**PG**)  
Peter Davies MBE, Undeb Amaethwyr Cymru (**PD**)  
Rowland Rees-Evans, Fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru (**RRE**)  
Russell Hughes-Pickering, Cyngor Sir Ceredigion (**RHP**)  
Steve Hughson, Prif Weithredwr Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (**SH**)  
Val Hawkins, MWT Cymru (**VH**)

#### Yn bresennol hefyd:

Derek Walker, Prif Weithredwr Canolfan Cydweithredol Cymru

	Amg.
<p><b>1. Ymddiheuriadau</b> Cafwyd ymddiheuriadau gan:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eifion Evans, Prif Weithredwr – Cyngor Sir Ceredigion</li> <li>• Carwyn Jones-Evans – Cyngor Sir Ceredigion</li> <li>• Cyngorydd Dafydd Edwards – Cyngor Sir Ceredigion</li> <li>• Nia Williams – Bwrdd Iechyd Hywel Dda</li> <li>• Nigel Brinn – Cyngor Sir Powys</li> <li>• Peter Howells – NFU</li> <li>• Peter Skitt – Bwrdd Iechyd Hywel Dda</li> <li>• Rhodri Griffiths – Llywodraeth Cymru</li> </ul>	
<p><b>2. Derbyn Cofnodion cyfarfod blaenorol PTCC a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020</b></p> <p>Cadarnhawyd bod Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020 yn gofnod cywir yn dilyn cynnig a wnaethpwyd gan Gyngorydd Ellen Ap Gwynn, Cyngor Sir Ceredigion ac a eiliwyd gan Fiona Stewart, Cyfarwyddwr Rheoli Gŵyl Greenman a Chadeirydd y Grŵp Strategaeth Economaidd.</p>	Amg.
<p><b>3. Diweddariadau Rhanbarthol Ehangach</b> <b>i. Canolfan Cydweithredol Cymru</b></p> <p>Estynnwyd croeso i Derek Walker (DW), Prif Weithredwr Canolfan Cydweithredol Cymru i'r cyfarfod, a rhoddodd y cyflwyniad sydd ynghlwm i'r Aelodau.</p> <p>Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar y prif bwyntiau canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Am Ganolfan Cydweithredol Cymru</li> <li>• Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru: 2015 i 2019</li> <li>• Y gwahaniaeth a wneir gan fusnesau cymdeithasol</li> <li>• Astudiaeth achos</li> <li>• Eu cynnig</li> <li>• Yr hyn y maent yn gofyn amdano</li> </ul> <p>Yn dilyn hyn, cynigiwyd y cyfle i ofyn cwestiynau.</p> <p>Nododd DW y bydd yn anfon dolen ymlaen i wefan Canolfan Cydweithredol Cymru i bawb ac i wefan Menter Busnes Cymdeithasol Cymru, sy'n cynnwys gwybodaeth bellach.</p> <p>Dywedodd NV, PAVO, y bydd yn cysylltu â DW i gael trafodaethau pellach.</p> <p><b>ii. Fashion Enter</b></p> <p>Estynnwyd croeso i Jenny Holloway (JW), Prif Weithredwr Fashion Enter i'r cyfarfod, a rhoddodd y cyflwyniad sydd ynghlwm i'r Aelodau.</p> <p>Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar y pwyntiau allweddol canlynol:-</p>	

- Y ffatri
- Y sawl y maent yn gweithio gyda nhw
- Yr Academi Technoleg Ffasiwn (FTA)
- Y dyfodol

Yn dilyn hyn, cynigiwyd y cyfle i ofyn cwestiynau.

Nododd yr aelodau ei bod hi'n wych gweld Fashion Enter yn buddsoddi yn Y Drenewydd ac yn cadw swyddi yn rhanbarth canolbarth Cymru gyda chynigion cyffrous ac uchelgeisiol er mwyn sicrhau twf a datblygiad yn y dyfodol.

Dywedodd MD, Grŵp Colegau NPTC, y bydd yn cysylltu gyda JH i drafod cyfleoedd prentisiaeth i'r rhai a fydd yn gadael addysg bellach.

Dywedodd SH, Prif Weithredwr Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, bod yr agwedd sy'n ymwneud â gwlan yn ddiddorol iawn, ac y byddai Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn cefnogi menter o'r fath, yn enwedig o ystyried y ffaith mai'r diwydiant gwlan yw'r maes lle y gwelir ffermwyr yn dioddef y golled fwyaf ar hyn o bryd.

Dywedodd RE ei fod yn croesawu unrhyw syniadau arloesol ynghylch gwlan mai'r diwydiant gwlan yw'r maes lle y gwelir ffermwyr yn dioddef y golled fwyaf ar hyn o bryd. Gofynnodd RE a yw Fashion Enter yn debygol o gael ei effeithio gan fanwerthwyr ar-lein yn cymryd busnes ac a yw hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei ddatblygu. Dywedodd JE y byddent yn dymuno ystyried deunydd dodrefnu a hyrwyddo casgliad 'Gwnaed yng Nghymru'.

### iii. **AberInnovation**

Estynnwyd croeso i Dr. Rhian Hayward MBE (RH) i'r cyfarfod a chyflwynodd y cyflwyniad sydd ynghlwm i'r Aelodau:-

Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar y prif bwyntiau canlynol:-

- Cefndir AberInnovation
- Amserlen sydd ynghlwm – ar agor yn llawn ar gyfer gwaith Ymchwil a Datblygu ar y cyd o 1 Ebrill 2021
- Gweithgareddau craidd presennol
- Sialensiau wrth gatalyddu arloesedd
- Cyfleoedd yn y dyfodol

Yn dilyn hyn, cynigiwyd y cyfle i ofyn cwestiynau.

Dywedodd JH y byddai hi'n dymuno cael trafodaeth bellach ynghylch STEM ar Waith i ysgolion ac y byddai'n dymuno ymgysylltu ymhellach er mwyn gweld rhagor o beirianwyr benywaidd.

	<p>Gofynnodd EAG a fyddai modd darparu gwybodaeth bellach am y gronfa her sy'n datblygu, a sut y bydd yn gweithio. Dywedodd RH eu bod wedi bod yn dysgu am y gronfa her a sefydlwyd gan ranbarth Dinas Caerdydd ac mai'r ddealltwriaeth yw mai cronfa ydyw yn y rhanbarth sy'n cyfrannu at gynnal cyfres o weithdai lle y bydd gan y sector cyhoeddus gyfle i ddweud pa sialensiau y mae angen eu datrys fel rhanbarth ac estyn gwahoddiad i'r sector preifat gynnig datrysiadau i'r sialensiau. Yn ogystal, mae'n cynnig man cychwyn i gwmnïau ar gyfer cyllid technoleg a chyllid arall er mwyn denu buddsoddwyr.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n ymwybodol o gronfa Her Caerdydd a gofynnodd a fyddai RH yn ceisio cyllid gan y Fargen Twf neu a fyddai'n digwydd ochr yn ochr â hi. Dywedodd RH y gallai fod yn rhan o'r Fargen Twf neu redeg ochr yn ochr â hi.</p> <p>Dywedodd LG bod Cronfeydd Her yn nod allweddol o Strategaeth Ddiwydiannol y DU a bod angen i ni fod mewn sefyllfa i fod yn gallu manteisio arnynt i'r eithaf yn y dyfodol.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyflwyniadau heddiw.</p>	
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Bargen Twf Canolbarth Cymru – Diweddariad am y Cynnydd</b> <b>.Llofnodi Penawdau'r Telerau</b></p> <p>Dywedodd PG y bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r ffaith y llofnodwyd Penawdau'r Telerau cyn y Nadolig. Dywedodd PG bod ymrwymiadu'n cynyddu tuag at y Fargen Twf a bod yr achos busnes portffolio yn cael ei ddatblygu ar y cyd â LIC a Llywodraeth y DU. Mae gwaith manylach yn cael ei wneud ar yr Achos Busnes Portffolio, sy'n adlewyrchu dogfen y Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru a gyhoeddwyd y llynedd, ac mae'n seiliedig ar ddull y model pum achos busnes a ddatblygwyd gan Joe Flanagan, y mae'r tîm yn gwneud gwaith uniongyrchol gydag ef.</p> <p>Dywedodd PG ei bod yn rhaglen 15 mlynedd gydag ymrwymiad o £110mil at ei gilydd gan y ddwy Lywodraeth. Dywedodd PG na fydd yr hyn a gaiff ei gynnwys yn y portffolio rhanbarthol wastad yn cael ei ariannu gan y Fargen Twf, ond mae'n caniatáu i ni gael catalydd o brosiectau a rhaglenni er mwyn manteisio ar gronfeydd eraill os bydd hyn yn fwy addas. Bydd cael pob prosiect yn yr un man yn caniatáu cael gweledigaeth ac uchelgais a rennir.</p> <p>Dywedodd PG bod angen sylweddol i fodloni gofynion cadarn ynghylch rheoli a sicrwydd llywodraethu gan y ddwy Lywodraeth.</p> <p>Dywedodd PG y bydd y trafodaethau'n cychwyn gyda busnesau trwy gyfrwng rhwydweithiau megis Partneriaeth TCC, fodd bynnag, bydd angen rheoli disgwyliadau mewn ffordd effeithiol. Dywedodd PG mai diben cyfan y Fargen Twf yw sicrhau ei bod yn hyrwyddo swyddi, cynhyrchiant, talent a chyfleoedd yn rhanbarth Canolbarth Cymru mewn ffordd gadarnhaol.</p>	<p>Amg.</p>

	<p>Dywedodd PG eu bod bellach yn ystyried rhestr hir o brosiectau o fewn cyd-destun portffolio o waith a fydd yn cael ei fireinio dros gyfnod o amser ac a fydd yn creu rhestr fer yn y diwedd. Dywedodd PG eu bod yn cydweithio'n agos gyda busnesau hefyd trwy gyfrwng yr ESG, gan sicrhau y defnyddir amser busnesau yn y ffordd fwyaf effeithiol.</p> <p>Dywedodd PG y caiff y capasiti ei gynyddu ac y dylai'r PMO fod yn ei le yn ystod y misoedd nesaf.</p> <p>Dywedodd PG ei bod yn bwysig symud i ffwrdd o lofnodi PT cyn gynted ag y bo modd nawr, i gytundeb sy'n rhwymo mewn cyfraith er mwyn bodloni dymuniadau pawb a gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau yn rhanbarth canolbarth Cymru.</p>	
<p><b>5.</b></p>	<p><b>Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol – Diweddariad am y Cynnydd</b></p> <p>Dywedodd PG y bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r ffaith bod y ddau awdurdod wedi cytuno a llofnodi ToR ar gyfer RLSP i ranbarth canolbarth Cymru, sy'n nodi'r Cyfansoddiad a'r ffordd y penodir y Cadeirydd.</p> <p>Dywedodd PG bod y broses recriwtio am reolwr RLSP yn mynd rhagddi a'r gobaith yw y bydd rheolwr yn y swydd ym mis Mawrth trwy gyfrwng secondiad er mwyn sicrhau y caiff y swydd ei llenwi mor gyflym ag y bo modd gan rywun sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth gywir.</p> <p>Dywedodd PG bod Arweinwyr Ceredigion a Phowys wedi ysgrifennu at y Gweinidogion i geisio cadarnhad o'r cyllid ar gyfer yr RLSP.</p> <p>Dywedodd PG y cyhoeddir ceisiadau Mynegi Diddordeb yr wythnos hon er mwyn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer yr RLSP.</p> <p>Cyhoeddir llythyr i sefydliadau yn gofyn am gynrychiolaeth i aelodaeth RLSP ac wrth i hwnnw ddechrau ffurfio, gellir datblygu'r rhaglen waith gyda'r rheolwr yn eu swydd.</p> <p>Dywedodd PG y cynhaliwyd cyfarfod gyda Huw Morris, Llywodraeth Cymru, a'i fod yn awyddus i fwrw ymlaen a derbyn cynigion wrth fynd ymlaen gyda chyingor ac anogaeth.</p> <p>Dywedodd PG y bydd yn dosbarthu adroddiad sy'n cynnig diweddariad i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod, a fydd yn nodi manylion pellach.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i PG am y diweddariad heddiw ac roedd yn falch o glywed bod cynnydd yn cael ei sicrhau.</p>	
<p><b>6.</b></p>	<p><b>Diweddariadau Busnes</b></p> <p><b>i. Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio</b></p> <p>Rhoddodd GR ddiweddariad byr i'r Aelodau am Raglen TRI er mis</p>	<p>Amg.</p>

<p>Rhagfyr. Dywedodd GR y bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r ffaith ein bod wedi gwneud cais am gyllideb o £1.5mil i ariannu cynllun thematig newydd, ond bod hyn wedi'i gyfyngu i 50% o'r gyllideb ranbarthol ac oherwydd bod y gyllideb ranbarthol wedi cael ei lleihau, lleihawyd y gyllideb thematig i £1.26mil. Dywedodd GR bod hyn wedi cael ei gymeradwyo yn y Panel Cyfalaf a'u bod yn aros am gymeradwyaeth Weinidogol nawr, a'r gobaith yw y caiff y cynllun ei lansio ym mis Mawrth. Mae'n gynllun blwyddyn i ddechrau, a'r gobaith yw y caiff ei ymestyn yn dilyn Etholiadau LIC a bydd angen gwneud ceisiadau ar gyfer cyllidebau blynyddoedd dilynol. Cynlluniwyd y cynllun i gael ffocws ar adfywio ac mae'n gynllun eang. Lluniwyd canllawiau a cheisiadau drafft ac mae'r rhain gyda Chyngor Sir Powys ar hyn o bryd er mwyn eu cwblhau.</p> <p>Mae'r gweinyddiad rheoli yn debyg i'r TCPIF thematig presennol. Disgwylir y bydd rhywfaint o orwariant, ond caiff hyn ei gario ymlaen i'r thematig nesaf.</p> <p>Dywedodd GR bod LIC wedi llacio'r amodau cyllido ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Mae LIC wedi nodi nad oes angen gwario'r holl arian erbyn diwedd mis Mawrth mwyach, ond mae angen ei ymrwymo, sy'n galluogi prosiectau megis Autopalace a'r Prosiect Seilwaith Gwyrdd yn Llanbedr Pont Steffan i ddefnyddio mwy o gyllideb o eleni yn hytrach na blwyddyn nesaf, a fydd yn arwain at sefyllfa lle y bydd mwy o arian ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf a datblygiadau newydd. Mae'r trafodaethau'n parhau gyda LIC.</p> <p>Cadarnhaodd GR bod y cyllid hwn ar gyfer canol trefi yn benodol. Dywedodd AD bod trafodaethau'n parhau gyda thîm Adfywio LIC ac maent yn cydnabod sut y mae cronfeydd trawsnewid trefi yn effeithio ar drefi gwledig bychain. Dywedodd AD eu bod yn fodlon cyflawni rôl allweddol wrth drafod ffynonellau cyllid eraill hefyd.</p> <p><b>ii. Adroddiad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol</b></p> <p>Cafwyd diweddariad byr gan CM ynghylch gwaith RET yn dilyn adroddiad a ddosbarthwyd i'r Aelodau ymlaen llaw. Dywedodd CM mai'r prif weithgarwch dros y misoedd diwethaf fu cynorthwyo gwaith y prosiectau rhanbarthol ehangach. Dywedodd CM bod RET Canolbarth Cymru wedi bod yn ymwneud â hwyluso rhwydweithiau rhanbarthol a chyfarfodydd ynghylch sawl thema dan y portffolio. Dywedodd CM y dylai'r Aelodau fod wedi cael copi o'r llyfryn hyrwyddo rhanbarthol hefyd, sy'n amlygu llwyddiannau presennol rhaglenni cyllid RDP ac ESIF yng Nghanolbarth Cymru yn ddiweddar, ac sy'n dangos y gweithgarwch sylweddol a gyflawnir ynghylch yr 8 thema y rhoddir blaenoriaeth iddynt ac a restrir yn nogfen y Weledigaeth Ranbarthol.</p> <p>Gofynnodd CM i'r aelodau gysylltu os nad ydynt wedi cael copi o'r llyfryn hyrwyddo rhanbarthol eto.</p> <p>Dywedodd CM eu bod yn gobeithio llenwi swydd y Rheolwr</p>	<p>Amg.</p> <p>Amg.</p>
---	-------------------------

	<p>Ymgysylltu Rhanbarthol cyn gynted ag y bo modd a hefyd, ystyried sut y bydd gweithgarwch RET yn cyd-fynd â'r PMO a gaiff ei sefydlu yn 2021.</p> <p><b>iii. Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith</b></p> <p>Rhoddodd AE ddiweddariad i bawb am y Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith. Dywedodd AE bod LIC wedi cadarnhau buddsoddiad o £46mil ar gyfer gwaith ar Bont Dyfi, a fydd yn cychwyn ar y safle o 1 Mawrth 2021. Cytunwyd ar £3.4mil er mwyn gwneud gwelliannau ar y rheilffyrdd i'r dwyrain o Fachynlleth, y maent yn aml yn cael eu heffeithio gan lifogydd.</p> <p>Adroddodd AE yr agorwyd Gorsaf Rheilffordd Bow Street ddoe (14 Chwefror 2021) a bod y trêen cyntaf wedi cyrraedd yr orsaf. Mae'r orsaf yn cynnig cysylltiad i gerddwyr, beicwyr a bysiau i gampws AberInnovation.</p>	
<p><b>7.</b></p>	<p><b>Diweddariad gan Lywodraeth Cymru</b></p> <p><b>i. Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a materion rhanbarthol cysylltiedig</b></p> <p>Dywedodd AW bod yr REF yn nodi'r egwyddorion o ran sut y bydd rhanddeiliaid yn y rhanbarth yn gweithio mewn ffordd fwy gynhwysol a chydweithredol yn y dyfodol, a bwriedir iddynt ddylanwadu ar gynlluniau cenedlaethol o bersbectif Canolbarth Cymru. Uchelgais REF yw cyflwyno blaenoriaethau economaidd a rennir ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ar sail yr egwyddorion a'r ffyrdd o weithio a amlinellwyd yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd AW y byddant yn canolbwyntio yn y tymor byr ar yr angen i ymateb i adfer yn dilyn Covid-19.</p> <p>Dywedodd AW y cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ddiwedd y llynedd. Buont yn ymgysylltu gyda phobl ifanc a chafwyd sesiwn gynhyrchiol gydag ysgol uwchradd yn y rhanbarth. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu pwrpasol gydag aelodau'r bartneriaeth. Dywedodd AW eu bod bellach yn canolbwyntio ar y prif faterion a'r themâu sy'n dod i'r amlwg a bod aliniad a chysondeb gyda gwaith cynllunio rhanbarthol strategol ehangach a gynhelir ar gyfer Bargaen Twf Canolbarth Cymru.</p> <p>Dywedodd AW y byddai rhai o'r materion a godwyd yn datblygu cyfleoedd allweddol ac asedau penodol megis AberInnovation, Prifysgol Aberystwyth, IBERS, Canolfan Sbectrwm Genedlaethol, Maes Sioe Frenhinol Cymru a sectorau diwydiannol eraill. Nodwyd bod ynni a'r amgylchedd yn un o'r prif asedau.</p> <p>Dywedodd AW bod themâu eraill a amlygwyd yn hyrwyddo menter, y diwylliant treftadaeth unigryw a'r iaith Gymraeg. Yn ogystal, yr angen i ddatblygu ansawdd yr addysg a ddarparir a darparu swyddi i bobl ifanc er mwyn eu hannog i aros yn yr ardal a chyflawni rôl cynhyrchiol yn economi y dyfodol. Roedd themâu eraill yn ymwneud â'r cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gydag asedau naturiol y</p>	

	<p>rhanbarth a sut i fanteisio i'r eithaf ar dwristiaeth gwerth uwch i'r ardal.</p> <p>Dywedodd AW eu bod yn mynd trwy'r broses o goladu'r holl wybodaeth mewn dogfen ddrafft a rennir yn fewnol ac yn allanol gyda phartneriaid allweddol cyn cwblhau'r ddogfen.</p> <p>Dywedodd AW bod y Gweinidog yn falch iawn gyda'r ffaith y llofnodwyd HoT, a bydd gwaith yn digwydd nawr ar y cyd â swyddogion i symud yr HoT i gytundeb ar gyfer bargaen derfynol.</p> <p>Rhoddodd AW ddiweddariad am y cyllid sydd ar gael yng ngoleuni Covid a'r effaith arwyddocaol y mae'r cyfnod clo wedi'i gael ar fusnesau.</p> <p>Dywedodd AW bod dros 900 o fusnesau yng nghanolbarth Cymru wedi cael budd gan y potiau ariannu, yr oeddent yn werth £14.5 miliwn. Yn ogystal, darparwyd £3.1 i ychydig dan 380 o gwmnïau trwy gyfrwng cyllid ar gyfer sectorau penodol. Nododd AW bod rhywfaint o gyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i gynorthwyo cronfa busnesau bychain ac mae Cyngor Sir Powys eisoes wedi cael nifer o geisiadau. Dywedodd AW bod y Dirprwy Weinidog wedi sicrhau bod £3mil ychwanegol ar gael i'r economi sylfaenol hefyd.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd bod gwaith trawsffiniol yn hollbwysig i'r rhanbarth a gofynnodd a oedd LIC wedi ystyried hynny. Dywedodd AW yr ystyriwyd gwaith trawsffiniol wrth ddatblygu'r REF.</p> <p>Dywedodd HJ, Croeso Cymru, y byddant yn ystyried adfer ac yn canolbwyntio ar y camau nesaf wrth ailagor twristiaeth yn ystod cyfarfod nesaf fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru, ac y bydd hyn yn cyfrannu at Gynllun Adfer Cymru Gyfan. Cynhelir digwyddiad ymgysylltu rhith yn nes ymlaen ym mis Mawrth.</p> <p>Fel Cadeirydd Fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru, roedd SH yn dymuno diolch i Gyngorau Sir Ceredigion a Phowys a Llywodraeth Cymru am y cymorth a roddwyd i'r sectorau twristiaeth o ran rheoli darpariaeth y cyllid, a diolchodd i'r Bwrdd Iechyd Lleol am gynnal y rhaglen frechu. Dywedodd SH y cynigiwyd Maes Sioe Frenhinol Cymru fel cyfleuster am ddim er mwyn cyflwyno'r brechiad.</p> <p>Dywedodd SH ei fod yn edrych ymlaen at drafod Cronfa Adfer Diwylliant Cymru 2 gan bod y sector digwyddiadau wedi cael ergyd drom gan y pandemig, ac mae'n croesawu cymorth aelodau'r Bartneriaeth i ddatblygu cronfa adfer ddiwylliannol.</p> <p>Mae canslo digwyddiadau yng Nghymru wedi arwain at golled o £100mil i economi Cymru hyd yn hyn.</p>	
8.	<p><b>Unrhyw Fater Arall</b> Nid oedd unrhyw faterion ychwanegol i'w trafod.</p>	
9.	<p><b>Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol</b></p>	



- **Dydd Llun 24 Mai – 10:00 am**
- **Dydd Iau 16 Medi – 2:00 pm**
- **Dydd Llun 15 Tachwedd – 10:30 am**